

“ Mae CThEF wedi rhyddhau ffigurau masnach y DU yn ddiweddar ar gyfer 6 mis cyntaf 2025. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y ffigurau hyn yn fanylach. ”

Glesni Phillips - Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes




Yn ystod chwe mis cyntaf 2025 (H1), cynyddodd cynhyrchiant cig eidion yn y DU o 4% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024, yn ôl data Defra. Mewn cyferbyniad, gwelodd cynhyrchiant cig defaid gynydd o 3%, tra bod cynhyrchiant cig moch wedi tyfu 4% ar y flwyddyn.

Nodyn: mae'r cynhyrchion cig coch y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon ar gyfer masnachu cynnyrch cig coch ffres ac wedi rhewi yn unig (nid yw'n cynnwys offal na chynnyrch wedi'i brosesu).

CIG EIDION

Yn ôl data CThEF, cyfanswm **allforion** cig eidion y DU yn ystod H1 2025 oedd tua 51,300 tonnelli, gostyngiad bron i 9 mlynedd blwyddyn-ar-flwyddyn, eto mae gwerth yr allforion hynny wedi codi 19% i £316.9 miliwn, adlewyrchiad o'r prisiau fferm domestig cryf. Cyfeintiau is yn cael eu cludo i lwerddon (-15%) a'r Iseldiroedd (-18%) oedd prif ysgogwyr y gostyngiad mewn cyfeintiau. Fodd bynnag, lwerddon oedd y gyrchfan unigol fwyaf o hyd, gyda chyfaint yn dod i gyfanswm o tua 14,600 tonnelli (sy'n cyfateb i 28% o gyfanswm yr allforion). Mae cyfeintiau cynyddol o gig eidion y DU yn cael eu cludo i Ffrainc a Chanada, gyda Ffrainc yn ail gyrchfan fwyaf (llai na 1,500 tonnelli y tu ôl i lwerddon). Gyda chynhyrchiant cig eidion




domestig i lawr 4% flwyddyn-ar-flwyddyn, mae cyflenwad tynnach gartref yn debygol olygu bod cyfeintiau cyfyngedig ar gael i'w hallforio.

Roedd **mewnforion** cig eidion y DU yn wastad ar y cyfan (+0.2%) ar 120,400 tonnelli ond maen nhw'n parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd hanesyddol - tua 7% yn uwch na'r cyfartaledd pum mlynedd 2020-24. Fe wnaeth gwerth

y mewnforion hyn chwyddo o 26% bron i £857.5 miliwn. Lwerddon oedd y prif gyflenwr, ond gostyngodd ei chyfran o gig eidion sy'n dod i mewn o 77% i 73% wrth i fewnforion cig eidion lwerddon ostwng 5% ar y flwyddyn. Cyrhaeddodd mwy o gig eidion o Frasil (+2,300 tonnelli), Awstralia (+1,900 tonnelli), Gwlad Pwyl (+1,600 tonnelli), a Seland Newydd (+1,500 tonnelli).

CIG DEFAID

Fe wnaeth **allforion** cig defaid gynyddu'n sylweddol yn H1 2025, gan gyrraedd 43,250 tonnelli (cynydd o 16% ar y flwyddyn) gyda gwerth allforio yn cynyddu o 14% i £334.0 miliwn. Mae'r cynnydd mewn gwerth yn adlewyrchu prisiau fferm cryf ledled y DU, tra byddai lefel gynhyrchu uwch flwyddyn ar flwyddyn wedi caniatáu mwy o gyfleoedd allforio. Anfonwyd mwy o gyfeintiau i wledydd yr UE a gwledydd y tu allan i'r UE, gyda llawer o'r twf yn cyfrif am gynydd o 24% mewn danfoniadau i Ffrainc, a gymerodd tua 57% o gyfaint allforio y DU. Gan fod y cyflenwad cig




defaid y DU fel arfer yn cynyddu yn ail hanner y flwyddyn, efallai y bydd mwy o gynnyrch ar gael i'w allforio yn ddiweddarach yn 2025.

Fe wnaeth **mewnforion** cig defaid y DU hefyd gynyddu, i fyny 7% i 36,160 tonnelli, y lefel H1 uchaf ers 2019 (ar 38,100 tonnelli). Ysgogwyd y cynnydd hwn yn bennaf gan gynydd 3,400 tonnelli mewn mewnforion o Awstralia yn dilyn

y trefniant masnach newydd a phrisiau cystadleuol yn Hemisffer y De. Seland Newydd oedd y cyflenwr sengl mwyaf, gan ddarparu tua 58% o fewnforion yn H1 2025, er gwaethaf gostyngiad yn y cyfaint a dderbyniwyd hyd yma yn 2025.

PORC

Fe wnaeth **allforion** porc gynyddu o 5% i tua 65,000 tonnelli yn H1 2025, tra bod gwerth allforio wedi gostwng tua 7% i £121.5 miliwn. Roedd mwy o allforion yn debygol o fod yn gysylltiedig â chynnydd o 4% mewn cynhyrchiant cig moch domestig (yn ôl data gan Defra).



Fe wnaeth **mewnforion** porc ostwng 5% mewn cyfaint i 158,000 tonnelli ac fe wnaeth gwerth mewnforio ostwng bron i 12%. Gostyngiad yn y cyfaint a dderbyniwyd o'r Almaen (-59%) oedd y prif ysgogwr y tu ôl i'r gostyngiad yng nghyfanswm y mewnforion, tra bod Denmarc - prif gyflenwr y DU - wedi allforio 2,800 tonnelli ychwanegol i'r DU yn ystod H1.

Masnach yng Nghymru

Yn ôl data masnach diweddar, mae cyfaint y cig eidion a allforiwyd o Gymru yn ystod H1 2025 wedi gostwng 8% ar lefelau blwyddyn ynghynt, sef amcangyfrif o 7,200 tonnelli, tra bod gwerth y llwythi wedi codi 19%. Mae hyn yn debygol o ganlyniad i gyfyngiadau cyflenwi domestig ynghyd â phrisiau fferm cryf. Ar gyfer cig defaid, amcangyfrifwyd bod cyfeintiau allforio wedi cynyddu 14% i 14,000 tonnelli, gyda gwerth i fyny 13% ar y flwyddyn.

ffynhonnell: Amcangyfrifon HCC yn seiliedig ar ddata

Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?

Mae cyflenwadau cig eidion yn y DU a phrisiau fferm cryf yn cefnogi gwerthoedd allforio uwch ond yn cyfyngu ar gyfeintiau. Gan fod y prisiau uchel parhaus bellach hefyd yn hidlo i ddefnyddwyr, gall hyn newid y galw am gynnyrch. Mae mwy o ddanfoniadau cig defaid yn awgrymu ei fod wedi parhau i fod yn gystadleuol ar y farchnad fyd-eang er gwaethaf prisiau domestig cryf, wedi'u cefnogi gan alw cyson gan yr UE (yn enwedig Ffrainc). Mae hyn wedi cefnogi'r sector tra bod y cynhyrchiad wedi bod yn cynyddu.

GWARTHEG

Prisiau – wythnos yn dod i ben 20 Medi

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **638.5c/kg**. Roedd hyn:

- + 1.9c ar yr wythnos flaenorol,
 - 135.7c uwchlaw lefelau flwyddyn ynghynt.
- Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -
- Heffrod: 634.1c/kg (+ 1.6c ar yr wythnos),
 - Teirw ifanc: 632.8c/kg (+7.1c ar yr wythnos), a
 - Buchod difa: 506.8c/kg (-0.3c ar yr wythnos).

Trwybwn – Awst 2025

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 203,000 pen – gostyngiad o 8% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 153,500 pen - i lawr 7% ar y flwyddyn.
 - bustych -8%, heffrod -8%, a theirw ifanc -0.2%
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 350.0kg (+5.8kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 44,700 pen - i lawr 10% ar y flwyddyn.

DEFAID

Prisiau – wythnos yn dod i ben 20 Medi

Roedd y pris cig oen pwysau marw* ym Mhrydain ar gyfartaledd yn **670.2c/kg**. Roedd hyn:

- +10.1c ar yr wythnos flaenorol,
- + 29.1c o'i gymharu â lefelau flwyddyn ynghynt,
- 132.2c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 538.0c/kg).

Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 34,200 pen. Roedd hyn:

- 8% ar yr wythnos flaenorol
- 17% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach

*Noder: Dangosir ŵyn hen dymor o 1 Ionawr i'r trydydd dydd Llun ym mis Mai ac ŵyn tymor newydd wedi hynny.

Trwybwn – Awst 2025

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 985,900 pen – tebyg ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 867,800 pen – i lawr 7% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas ŵyn cyfartalog = 20.0kg (+0.3kg).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 118,100 pen – i lawr 9% ar y flwyddyn.

MOCH

Prisiau – wythnos yn dod i ben ar 20 Medi


Roedd Pris Moch Safonol yr UE (SPP)* ym Mhrydain yn sefyll ar **206.7c/kg**. Roedd hyn:

- +0.1c ar yr wythnos flaenorol,
- 2.3c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 17.4c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 189.4c/kg).

*Nodyn: nid yw'r gyfres ddata APP bellach ar gael gan nad yw'r data bellach yn bodloni trothwyon dilysu. Nid yw'r SPP (sy'n defnyddio gwahanol ffynonellau data) yn cael ei effeithio.


Trwybwn – Awst 2025

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 839,700 pen – i lawr 6% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 825,000 pen – i lawr 5% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 89.3kg (-0.2kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 14,700 pen – i lawr 11% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU Awst '25

68,100 tonnelli
-7% b-a-f



Cynhyrchiant cig defaid yn y DU Awst '25

20,400 tonnelli
-7% b-a-f



Cynhyrchiant porc y DU Awst '25

75,900 tonnelli
-6% b-a-f

